# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 13 Ionawr 2016

Amser y cyfarfod: 13.30

# (307)v2

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cynnig i Ethol Aelodau i Bwyllgor

(5 munud)

**NDM5921 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3:

(i) yn ethol John Griffiths (Llafur) yn aelod o, ac yn Gadeirydd, i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad;

(ii) yn ethol Jeff Cuthbert (Llafur) fel eilydd ar gyfer y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ar gyfer John Griffiths (Llafur).

## 4 Bil Cymru Drafft

(180 munud)

**NDM5911 David Melding (Canol De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn croesawu adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar Fil Cymru drafft.

Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar Fil Cymru drafft

Bil Cymru drafft

Pecyn y Cyfarfod Llawn ar Fil Cymru drafft

**NDM5912 David Melding (Canol De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi barn y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, os bydd Llywodraeth y DU yn bwrw ymlaen â'r amserlen bresennol ar gyfer Bil Cymru drafft, y dylai ymrwymo i gydgrynhoi cyfraith gyfansoddiadol Cymru yn ddwyieithog yn ystod y Senedd bresennol.

**NDM5913 David Melding (Canol De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi barn y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y dylid diwygio Bil Cymru drafft i gael gwared â'r prawf angenrheidrwydd neu osod prawf yn seiliedig ar briodoldeb yn ei le.

**NDM5914 David Melding (Canol De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi barn y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y dylid diwygio y Bil Cymru drafft i gynnwys system i ofyn am gydsyniadau Gweinidog y Goron sy'n adlewyrchu'r model yn Neddf yr Alban 1998.

Deddf yr Alban 1998 (Saesneg yn unig)

**NDM5915 David Melding (Canol De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi barn y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y dylid diwygio Bil Cymru drafft i leihau'n sylweddol nifer y cymalau cadw a'r cyfyngiadau penodol mewn ffordd sy'n cyd-fynd â deddfwrfa aeddfed, effeithiol ac atebol a fydd yn cael pwerau treth incwm.

**NDM5916 David Melding (Canol De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi barn y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y dylid diwygio Bil Cymru drafft i gynnwys awdurdodaeth benodol fel bod Deddfau Cymru yn berthnasol i Gymru yn unig ac yn addasu cyfraith Cymru a Lloegr fel sy'n briodol i'w gorfodi o fewn rheswm.

## 5 Cyfnod pleidleisio

## 6 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM5917 William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Cenedl sy'n cynnig lloches? Y rôl y gall Cymru ei chwarae yn yr argyfwng ffoaduriaid.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 19 Ionawr 2016

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 6 Ionawr 2016 i'w hateb ar 13 Ionawr 2016

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

**1. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** Pa flaenoriaethau a gafodd eu hystyried gan Lywodraeth Cymru wrth ddyrannu cyllid i'r portffolio cymunedau a threchu tlodi? OAQ(4)0640(FIN)

**2. David Rees (Aberafan):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru wrth bennu'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2016-17? OAQ(4)0650(FIN)

**3. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyrannu cyllid i'r portffolio gwasanaethau cyhoeddus? OAQ(4)0641(FIN)

**4. David Rees (Aberafan):** A wnaiff y Gweinidog nodi manylion prosiectau cronfeydd strwythurol Ewropeaidd a gymeradwywyd yn ddiweddar yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(4)0649(FIN)

**5. Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa waith monitro y mae adran y Gweinidog yn ei wneud ar y cronfeydd ariannol wrth gefn sydd ar gael i gyrff cyhoeddus yn ystod blwyddyn ariannol? OAQ(4)0642(FIN)

**6. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** Pa gyllid ychwanegol y bydd y Gweinidog yn ei ddyrannu i bortffolio'r economi, gwyddoniaeth a thrafnidiaeth i wella'r A55? OAQ(4)0653(FIN)**W**

**7. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU mewn perthynas â chyllid yr UE yng Nghymru? OAQ(4)0652(FIN)

**8. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyrannu cyllid i'r portffolio cymunedau a threchu tlodi yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2016-17? OAQ(4)0648(FIN)

**9. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Pa flaenoriaethau y rhoddodd y Gweinidog ystyriaeth iddynt wrth ddyrannu cyllid i'r portffolio gwasanaethau cyhoeddus? OAQ(4)0637(FIN)

**10. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y dyraniad cyllidebol i'r portffolio cyfoeth naturiol flwyddyn nesaf? OAQ(4)0646(FIN)

**11. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wariant cyfalaf a ariennir gan Lywodraeth Cymru? OAQ(4)0638(FIN)

**12. Elin Jones (Ceredigion):** Pa flaenoriaethau a gafodd eu hystyried gan Lywodraeth Cymru wrth ddyrannu cyllid i bortffolio'r economi, gwyddoniaeth a thrafnidiaeth? OAQ(4)0643(FIN)**W**

**13. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddull Llywodraeth Cymru o gasglu trethi datganoledig Cymru? OAQ(4)0639(FIN)

**14. Keith Davies (Llanelli):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion prosiectau cronfeydd strwythurol Ewropeaidd a gymeradwywyd yn ddiweddar yn ne-orllewin Cymru? OAQ(4)0645(FIN)

**15. Gwyn Price (Islwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymdrechion Llywodraeth Cymru i sicrhau cyllid teg i Gymru gan Lywodraeth y DU? OAQ(4)0644(FIN)

## Gofyn i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus

**1. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyflawni gwasanaethau cyhoeddus yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0658(PS)

**2. David Rees (Aberafan):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y setliad llywodraeth leol dros dro ar gyfer 2016-17? OAQ(4)0657(PS)

**3. Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa ymrwymiadau cyhoeddus y mae'r Gweinidog wedi'u gwneud i egluro cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer ad-drefnu llywodraeth leol? OAQ(4)0651(PS)

**4. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru i ad-drefnu cynghorau yng Nghymru? OAQ(4)0648(PS)**R**

**5. Gwenda Thomas (Castell-nedd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith Adran 76 o Ddeddf Troseddau Difrifol 2015, sy'n ymwneud â thrais domestig, ar ddarpariaethau Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015? OAQ(4)0652(PS)

**6. Alun Ffred Jones AC (Arfon):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cymorth sydd ar gael i awdurdodau lleol i ddelio ag effaith y llifogydd diweddar? OAQ(4)0662(PS)**W**

**7. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae cronfeydd ariannol wrth gefn awdurdodau lleol yn cael eu defnyddio? OAQ(4)0660(PS)

**8. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am waith Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru? OAQ(4)0655(PS)

**9. Lindsay Whittle (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu effaith ad-drefnu llywodraeth leol ar gynghorau tref a chymuned? OAQ(4)0659(PS)

**10. Gwyn Price (Islwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am waith Llywodraeth Cymru i warchod cyllid ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru yn ystod tymor y Cynulliad hwn? OAQ(4)0654(PS)

**11. Lynne Neagle (Torfaen):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) drafft? OAQ(4)0661(PS)

**12. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn ardal Castell-nedd Port Talbot? OAQ(4)0653(PS)

**13. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am setliad llywodraeth leol Cymru ar gyfer 2016-17? OAQ(4)0649(PS)**R**

**14. Jeff Cuthbert (Caerffili):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ariannu'r gwasanaeth heddlu yng Nghymru? OAQ(4)0650(PS)**R**

**15. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am berfformiad cynghorau cymuned yng Nghymru? OAQ(4)0656(PS)